CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor ● 5 Stryd Fawr ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ✉ cyngortrefffestiniog@yahoo.co.uk

COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 14eg o EBRILL 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Erwyn Jones

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Mel Goch ap Meirion, Rory Francis
Kevin Baldwin, Ronwen D Roberts, Will G Roberts
Annwen Daniels, Bedwyr Gwilym, Gareth W Jones
a Mandy Williams-Davies

9541/04/16 YMDDIHEURIADAU:

9542/04/16 DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Will G Roberts 9549/04/16 - Cais Cynllunio Rhif C16/0115/03/LL
Cynghorydd Will G Roberts 9553/04/16 - Cais Cynllunio Rhif NP5/59/780

9543/04/16 MATERION BRYS
Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cadeirydd gydymdeimlo a theulu a ffrindiau'r Athro Gwyn Thomas a dweud i'w farwolaeth fod yn golled fawr i'r ardal ac i Gymru.

9544/04/16 MATERION YR HEDDLU / FFORWM HEDDLU
Nid oedd aelod o'r heddlu yn bresennol a ni chodwyd unrhyw fater.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9545/04/16 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 10fed MAWRTH 2016

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Ronwen D Roberts yn eilio

9546/04/16 CYFRIFON I'W TALU MAWRTH

Shropshire Leisure Fabrication (Y Parc)	£	7200.00	Rhif Siec.	002221
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	98.38	Rhif Siec.	002222
Cricieth Cleaning Services (Gwaith amrywiol)	£	552.00	Rhif Siec.	002223
John Farrington (Gardd Encil & Y Parc)	£	1002.00	Rhif Siec.	002224
G Thomas (Man waith)	£	768.00	Rhif Siec.	002225
Kevin Jones (Sustem & Camerâu CC)	£	2062.00	Rhif Siec.	002226
J D Roberts (Archwilio cyfrifon)	£	115.00	Rhif Siec.	002227
G L Jones Playgrounds (Y Parc)	£	9073.02	Rhif Siec.	002228
G L Jones Playgrounds (Parc Sglefrio)	£	8785.21	Rhif Siec.	002229
S J Williams (Llwybrau cyhoeddus)	£	820.00	Rhif Siec.	002230
Gwelliannau Ffestiniog (Blodau)	£	250.00	Rhif Siec.	002231
S Jones (Archwilio caeau chwarae)	£	213.08	Rhif Siec.	002232
Cyngor Gwynedd (Goleuadau Nadolig)	£	5395.28	Rhif Siec.	002242
Cyngor Gwynedd (Parc Sglefrio)	£	1317.10	Rhif Siec.	002243

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9547/04/16 CYFRIFON I'W TALU EBRILL

Maia Jones	£	1500.00	Rhif Siec.	002217
UnLlais Cymru (Aelodaeth)	£	739.00	Rhif Siec.	002233
Arian Parod	£	50.00	Rhif Siec.	002234
Viking Direct (Defnydd swyddfa)	£	313.60	Rhif Siec.	002239
J P Farrington (Parc a Pharc Sglefrio)	£	145.00	Rhif Siec.	002240
Cwmni Adwy (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
BT (Ffôn)	£	61.43	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi x10)	£	184.50	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9548/04/16 ARIAN I MEWN

Carys Jones (Pafiliwn)	£	100.00
Cyngor Conwy (lloches Ieuenctid)	£	500.00

9549/04/16 IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO

Derbyn argymhellion Is Bwyllgor Cynllunio Nos Iau 17eg Mawrth 2016

ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO NOS IAU 17EG MAWRTH 2016 YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00PM

Presennol:	Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:	Cynghorwyr:
Mel Goch ap Meirion - Cadeirydd	Bedwyr Gwilym
Erwyn Jones	Annwen Daniels
Will G Roberts	
Rory Francis	

DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd W G Roberts Cais Cynllunio Rhif C16/0115/03/LL

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/511F
Ymgeisydd Mr Gwilym Williams
Gwylan
Ffestiniog
Datblygiad preswyl am 16 tŷ (marchnad agored) yn cynnwys byngalo presennol a gymeradwywyd o dan Ganiatâd Cynllunio NP5/59/511A dyddiedig 4ydd Chwefror 2005
Gwrthwynebu'r cynllun hwn.
Mae'r cais hwn yn groes i sawl adran o Gynllun Datblygu Lleol Eryri 2007-2022.

Hyrwyddo Cymunedau Iach a Chynaliadwy sef -
5.1 Cefnogi datblygiad priodol sy'n cwrdd ag angen tai'r gymuned leol, gan ystyried yn arbennig tai fforddiadwy i bobl leol
Cefnogi darpariaeth briodol a chadw cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol allweddol drwy'r ardal gyfan Annog cyfleusterau hamdden gymunedol ble maent yn cwrdd ag angen lleol a ble nad ydynt yn gwrthdaro â 'Rhinweddau Arbennig' y Parc
Hyrwyddo mesurau i annog datblygiad sy'n cefnogi hyfywedd yr iaith Gymraeg ac i ddiogelu cymunedau rhag datblygiadau sy'n an-sensitif i'r effaith ar yr iaith Gymraeg.

Polisi Strategol Tai
Bydd angen i dai newydd yn y Parc Cenedlaethol gwrdd ag angen cymunedau lleol. Rhaid i geisiadau gymryd ystyriaeth briodol o anghenion tai lleol yn nhermau maint, math a daliadaeth eiddo. Dylai'r mathau o dai adlewyrchu canlyniadau'r Asesiad Marchnad Dai Lleol neu unrhyw arolygon anghenion lleol priodol.
Bydd y cyflenwad o dai newydd yn cael ei ddarparu drwy:
Safleoedd a Neilltuwyd
i. Dyrannu safleoedd ar gyfer 100% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol ar dir cyhoeddus a 50% tai fforddiadwy i fodloni angen lleol ar dir preifat o fewn ffiniau datblygu tai aneddiadau (a ddangosir ar y mapiau manwl).

18 Polisi Datblygu
Yr iaith Gymraeg a ffabrig Cymdeithasol a Diwylliannol cymunedau
Wrth bennu'r holl geisiadau cynllunio o fewn y Parc Cenedlaethol bydd anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg yn cael eu hystyried. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy: i. Gefnogi datblygiad sy'n cynnal neu'n gwella integredd yr iaith Gymraeg.
ii. Gwrthod datblygiad fyddai, oherwydd ei faint, graddfa neu leoliad, yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned. Er mwyn gallu gwneud penderfyniadau'n seiliedig ar wybodaeth am geisiadau a allai gael effaith ar ddyfodol yr iaith Gymraeg o fewn cymunedau, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno:
a) 'Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol'i fynd gyda chais cynllunio
b) b) Asesiad mwy manwl ar ffurf 'Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol'
Mae angen i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fod yn gadarn ar hyn a gofynnir a yw'r ymgeisydd wedi gallu profi'r angen lleol am y tai hyn?

1. Cais Cynllunio Rhif C16/0189/03/LL
Ymgeisydd Mr T V Woolway
Llwyn Rhedyn
Sgwâr Oakeley
Blaenau Ffestiniog
Cais ôl gweithredol i gadw llwyfannau pren i gefn yr annedd
Gwrthwynebu'r cynllun hwn. Nid yw maint nac uchder y datblygiad yn glir o'r cynlluniau ond wrth gael cyfarfod ar y safle fe welwyd yn glir maint ac uchder y datblygiad. Mae'r datblygiad yn amharu'n arw ar breifatrwydd trigolion cyfagos, rhai ddim yn gallu agor llenni yn eu llofft o'i herwydd a bu i'r Cyngor Tref cael sawl cwyn amdano.

2. Cais Cynllunio Rhif C16/0115/03/LL
Ymgeisydd Mrs H Ellis
3 a 4 Gwaenydd Road
Rhiwbryfdir
Blaenau Ffestiniog
Newidiadau allanol a mewnol er mwyn dychwelyd un annedd preswyl presennol i'w ddefnydd gwreiddiol fel dau annedd preswyl ar wahân.
Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C16/0196/03/AC
Ymgeisydd BIPBC
Canolfan Coffa Ffestiniog
Blaenau Ffestiniog
Rhyddhau amod 10 ar C14/0112/03/LL
Caniatáu

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Will G Roberts yn eilio

9550/04/16 IS-BWYLLGOR MWYNDERAU
Derbyn argymhellion Is-Bwyllgor Mwynderau Nos Iau 17eg Mawrth 2016

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 17eg MAWRTH 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol:
Cynghorwyr:
Will G Roberts - Cadeirydd
Erwyn Jones
Mel Goch ap Meirion
Rory Francis

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Bedwyr Gwilym
Annwen Daniels

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Argymhellion Cyfarfod 18fed Chwefror**

Oherwydd amgylchiadau personol y Clerc nid oedd argymhellion mis Chwefror i law erbyn y Cyfarfod Arferol ar 10fed Mawrth 2016.

Argymell: Cytunwyd ar gynnwys yr argymhellion ac iddynt gael eu derbyn fel rhai cywir yng Nghyfarfod Arferol o'r Cyngor Tref 14eg o Ebrill 2016

2. **Caeau Chwarae**

Unwaith eto ni chafwyd adroddiad yr archwiliwr ar gyflwr y caeau chwarae mewn pryd at y cyfarfod. Mae'n hollol bwysig bod yr archwiliad yn cael ei wneud yn fisol er mwyn diogelwch plant.

Argymell: I drafod y swydd ym mis Ebrill pan fydd trafodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau mae'r Cyngor Tref yn ei brynu.

3. **Parc Sglefrio**

Cafwyd gwybodaeth bod y Parc Sglefrio wedi cael ei lanhau erbyn hyn. Does byth gopi o yswiriant Angry Scones Racing Team wedi dod i law, felly bydd raid i'r Cyngor ystyried os ydynt yn ymddwyn yn groes i'w prydles. Does byth gwybodaeth wedi dod i law parthed pa bryd fydd goleuadau yn cael cyflenwad trydan. Cafwyd amcan bris am loches ieuenctid gan gwmni G L Jones wedi ei osod mewn concrit sef - £7321.01, mi fydd arian grant yn dod gan yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tan tuag at y gost hon.

Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i holi unwaith eto pa bryd fydd cyflenwad trydan ar gael i'r goleuadau. I dderbyn pris cwmni G L Jones ar gyfer lloches wedi ei osod mewn concrit a gofyn iddo gael ei osod cyn gynted â modd. I gadarnhau gyda'r Angry Scones Racing Team nad ydynt i ddefnyddio'r Parc Sglefrio.

4. **Y Parc**

Cafwyd gwybodaeth bod y siglen 'nyth deryn' yn y Parc yn boblogaidd iawn. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â defnydd y cwrs golf gwirion yn dilyn cael mwy o wybodaeth gan gwmni o'r Amwythig. Teimlwyd bod y cwrs a gynigwyd gan y cwmni yma yn fwy addas i anghenion yr ardal na'r cwrs gan gwmnïau eraill oedd wedi gyrru amcan bris.

Argymell: I archebu'r cwrs golf gwirion gan gwmni Shropshire Leisure Fabrications Ltd am bris o £6000 cyn gynted â modd.

5. **Gardd Encil**

Cafwyd gwybodaeth bod angen gwaith cynnal a chadw yng Ngardd Encil. Mae growt y llechi angen sylw a'r meinciau angen staen a'u hail osod i'r llawr.

Argymell: I gael pris am y gwaith.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Will G Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Rory Francis yn eilio.

9551/04/16 <u>IS BWYLLGOR CYNLLUNIO</u>

Derbyn argymhellion Is-Bwyllgor Cynllunio Nos Fercher 23ain Mawrth 2016

ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO
NOS FERCHER 23AIN MAWRTH 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00PM

Presennol:	Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:	Cynghorwyr:
Mel Goch ap Meirion–Cadeirydd	Bedwyr Gwilym
Erwyn Jones	Annwen Daniels
Rory Francis	
Kevin Baldwin	
Rory Francis	
Ronwen D Roberts	

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Ddatgan Diddordeb

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Gwynedd a Môn
Cynllun Adnau 2011 - 2026

Bu i'r Cadeirydd ddatgan ei siom yn y nifer o gynghorwyr oedd yn bresennol gyda nifer bychan o ymddiheuriadau. Dywedodd bod yn sefyllfa yn mynd o ddrwg i waeth gydag Is Bwyllgorau yn rhan hanfodol o waith y Cyngor Tref. Mae'n ddiflas meddai troi fyny i gyfarfod Is Bwyllgor a gweld nad oes ond pedwar yn bresennol a'r mwyafrif eraill heb yrru ymddiheuriad at y Clerc.

Bu i'r Is Bwyllgor dderbyn y Newidiadau Ffocws sydd ar gyfer yr ardal sef cynnwys darn o dir ger Bryn Glas, Conglywal o fewn yr ardal datblygu.

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Ronwen D Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio.

9552/04/16 IS BWYLLGOR ADNODDAU
Trefnu dyddiad Is Bwyllgor Adnoddau i drafod cyfrifon 201-2016

PENDERFYNIAD: I gynnal Is Bwyllgor Adnoddau dydd Mawrth 19eg o Ebrill 2016 am 7.00 o'r gloch yn Siambr y Cyngor.

9553/04/16 **CEISIADAU CYNLLUNIO**
DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd W G Roberts Cais Cynllunio Rhif NP5/59/780

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/780
   Ymgeisydd Ms L Roberts
   3 Ffordd Heulog
   Ffestiniog
   Adeiladu estyniad deulawr yn y cefn
   Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD
AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C16/0022/03/LL
   Ymgeisydd P Jones
   Tŷ Capel Bethel
   Tanygrisiau
   Blaenau Ffestiniog
   Cais ar gyfer dymchwel stabl presennol ynghyd a chodi adeilad newydd ar gyfer creu uned gwyliau a toiledau allanol ynghyd a gosod 3 pod campio parhaol
   Gwrthod

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9554/04/16 IECHYD

Ni chafwyd unrhyw drafodaeth ar y pwnc.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9555/04/16 GWEFAN Y CYNGOR TREF

Cafwyd gwybodaeth nad oes unrhyw ddatblygiad diweddar ynglŷn â'r wefan. Nid oes unrhyw ymateb wedi ei dderbyn i alwadau ffôn ac e-byst i'r cwmni.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i gysylltu â chwmni Mwnci Bach yn gofyn iddynt fynychu cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref. Os nad yw'n gallu darfod y gwaith yna ddylai'r blaen dal gael ei dalu yn ôl i'r Cyngor.

9556/04/16 SGWÂR RAWSON

Cafwyd gwybodaeth y dylid y plac fod yn barod erbyn dechrau'r wythnos. Mae'r ffrâm wedi ei pharatoi ar ei gyfer ers peth amser a threfniadau mewn llaw iddo gael ei osod. Mae chwyn wedi tyfu'n arw ar y darn tir yma ac yn ôl Cyngor Gwynedd mae Cwmni Bro wedi derbyn arian tuag at y gost o gadw'r llecyn yn daclus.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i symud ymlaen i osod y plac cyn gynted â modd. I wneud ymholiadau ynglŷn â'r arian a roddwyd tuag at gynnal a chadw'r tir ac i gael pris am chwynnu a thacluso Sgwâr Rawson.

9557/04/16 WELSH NATIONAL TRACTOR ROAD RUN

Bydd rhwng 100 a 300 o dractorau yn teithio o Ddolgellau i Flaenau Ffestiniog ar y Sul 12fed o Fehefin 2016. Byddent yn casglu arian ar y ffordd tuag at achosion da. Byddent yn aros yn Sgwâr Diffwys am tua 2-3 awr a bydd Blaenau Bendigedig yn trefnu stondinau ayb at hyn. Mae posibilrwydd o archebu hysbyseb mewn cylchgrawn ar gyfer y digwyddid.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i'r Cadeirydd baratoi gair ar gyfer y cylchgrawn ac i archebu hanner tudalen ar gost o £50 i wneud hyn.

9558/04/16 PARTNERIAETH Y PARC

Cafwyd gwybodaeth bod y siglen newydd yn boblogaidd iawn ac y byddai'r Bartneriaeth yn ddiolchgar o dderbyn hadau gwair er mwyn adnewyddu'r oel troed ger y siglen.

Cwrs Golff Gwirion

Yn yr Is Bwyllgor Mwynderau a gynhaliwyd ar nos Iau 18fed o Chwefror 2016 cafwyd trafodaeth dan y pennawd Y Parc fel a ganlyn - '*Cafwyd trafodaeth ynglŷn â gosod siglen 'nyth deryn' yn y Parc a hefyd ynglŷn â lleoli cwrs golff gwirion yno. Cafwyd gwybodaeth bod angen trwsio'r teclyn codi'r rhwyd tenis.*

Cafwyd gwybodaeth bod Cyngor Gwynedd yn barod i symud ymlaen gyda throsglwyddo rhydd ddaliad y Parc i'r Cyngor Tref.

***Argymell:** I archebu'r siglen cyn gynted â modd. I osod y cwrs golf gwirion ar yr hen gwrt tenis ond i gael mwy o fanylion parthed defnydd y cwrs. I wneud ymholiadau parthed trwsio'r teclyn codi'r rhwyd tenis. I sicrhau nad oes angen unrhyw waith cynnal a chadw ar y tir cyn arwyddo ar y rhydd ddaliad.'.*

Yn anffodus, oherwydd profedigaeth teuluol y Clerc, ni fu i'r argymhellion hyn gael eu derbyn gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth a bu i rai cynghorwyr ofyn am iddo gael ei drafod unwaith eto. Roedd trefniadau wedi ei gwneud i osod y cwrs golff gwirion ar yr hen gwrt tenis dydd Iau, 14eg o Ebrill a bu i'r cwmni ddweud bod ei ohirio'r diwrnod cynt yn mynd i achosi costau o thua £200.

Dywedwyd y byddai Partneriaeth y Parc yn anelu at ail greu cwrt tenis ar yr hen gwrt yn y dyfodol.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth. Yn dilyn trafodaeth bu i'r Cynghorydd Bedwyr Gwilym, Cadeirydd Partneriaeth y Parc, wneud cynnig a gafodd ei eilio, bod y cwrs golff gwirion i'w leoli yn y cwrt tenis presennol. Fe aeth hyn i bleidlais gyda'r Cynghorwyr Bedwyr Gwilym, Mandy Williams-Davies, Annwen Daniels, Rory Francis, Ronwen D Roberts, Gareth Jones a Kevin Baldwin yn pleidleisio o blaid ei osod ar y cwrt tenis a'r Cynghorwyr Mel Goch ap Meirion a Will G Roberts yn gwrthwynebu hyn.

I dderbyn y bydd costau ychwanegol ynglŷn â'r gohiriad. Gan mai'r Cyngor Tref sydd wedi ariannu'r cwrs golff gwirion mi fydd unrhyw arian a godwyd am ddefnyddio'r offer i'w gasglu gan y Caffi a'i yrru ymlaen at y Cyngor. I holi ynglŷn â chael hadau gwair.

9559/04/16 CAEAU CHWARAE

Cafwyd gwybodaeth bod difrod wedi ei wneud i ddarn o'r offer pren blant bach ar gae Manod. Mae coed bach yn tyfu ger ffens Cae Baltic ac angen eu torri lawr. Cafwyd gwybodaeth bod y rhododendrons ger y Parc sglefrio ar dir Cyngor Gwynedd ac y byddent yn cael eu torri unwaith mae'r goleuadau yn gweithio a Chyngor Gwynedd wedi cael sicrhad nad yw'r goleuadau yn disgleirio ar yr A496.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i gytuno i gael saer i edrych ar y difrod i'r offer pren plant bach ar gae Manod ac i ofyn am gael torri coed bach ger ffens Cae Baltic.

9560/04/16 CYNGOR GWYNEDD

Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd)(Ardal Meirionnydd) 2016

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9561/04/16 CYNGOR GWYNEDD
Gwybodaeth parthed trefniadau ffeiriau 2016

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9562/04/16 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL
Ni chafwyd unrhyw adroddiad.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9563/04/16 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD
Cafwyd gwybodaeth y bydd cais yn dod i'r Cyngor Tref fod yn rhan o grŵp sydd gyda diddordeb mewn cael mwy o wybodaeth parthed asedau'r ardal.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9564/04/16 RHEILFFORDD FFESTINIOG
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9565/04/16 CHWARAE DROS GYMRU
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 8.32 y.h.

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR TREF
NOS IAU 12fed MAI 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD BLYNYDDOL 12fed MAI 2016
AR YR 5ed MAI 2016

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 12fed MAI 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 12fed MAI 2016
AR YR 5ed MAI 2016